**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**15 HYDREF 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 15 Hydref 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Haydn Bateman, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Kevin Rush, Andy Williams ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIAD:** Prif Weithredwr

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Paul Johnson (ar ran Paul Shotton)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau), y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr ar gyfer Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Rheolwr Cyllid

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 12. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ddiweddariad byr am y sefyllfa bresennol a chyfeiriodd at effaith posibl Parthau Gwarchod Iechyd ar y nifer o achosion a phwysigrwydd cydymffurfio â'r cyngor. Byddai Aelodau'n cael gwybod am unrhyw newidiadau, ac roedd disgwyl cyhoeddiadau pellach gan Lywodraeth Cymru. Yn y diweddariad, fe soniwyd am y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu a'r gwaith i ailwampio cynlluniau parhad busnes dros gyfnod y gaeaf.

Fel Arweinydd y Cyngor, diolchodd y Cynghorydd Roberts i Aelodau, swyddogion a thrigolion Sir y Fflint am y modd roeddynt yn delio â'r sefyllfa argyfyngus. Rhoddodd ddiweddariad byr am ysgolion, a rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai'r newyddion diweddaraf yn cael ei rannu mewn modd amserol.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y diweddariad ar lafar.

## 13. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am Gofrestr Risg y Portffolio Corfforaethol a mesurau lliniaru yn rhan o gynllunio adferiad, yn dilyn yr eitem yn y cyfarfod blaenorol.

Rhoddodd y Prif Swyddog, Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol gyflwyniad ar y cyd am y prif newidiadau a'r materion presennol am risg ac adferiad o fewn eu portffolios fel a ganlyn:

- Tueddiad risg gyfredol ac wedi dod i ben
- Dadansoddiad o'r statws risg gyfredol
- Dadansoddiad o statws tueddiad risg
- Cyllid
- Gweithlu
- Llywodraethu

Cyllid

Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones y dylai'r data wahaniaethu rhwng gwella tueddiadau risg a thueddiadau sefydlog, felly dylai tueddiadau risg oedd yn sefydlog gael eu hanodi gyda'r saeth briodol, ond gallai aros yn goch, oren neu wyrdd yn y cyflwr sefydlog hwnnw. Dywedodd y Prif Swyddog bod y data'n cael ei gyflwyno i ddarparu cyd-destun ar y statws presennol ochr yn ochr â'r duedd, ond fe allai gael ei adolygu os oedd Aelodau eraill yn rhannu'r un pryder. Cynigiodd y Cynghorydd Jones ei awgrym fel argymhelliad, ac roedd yn cwestiynu teitl y Strategaeth Adfer am ei fod yn teimlo nad oedd hyn yn adlewyrchu cam presennol y pandemig. Dywedodd y Prif Swyddog bod y tri cham yn dilyn y terminoleg genedlaethol a bod y cam Adfer yn edrych ar gynllunio at y dyfodol. Yn anochel, fe allai pob cam newid ar unrhyw adeg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y newid yng ngraddfa risg ar gyllid cenedlaethol er mwyn disodli incwm sy'n cael ei golli (CF01), dywedodd y byddai'n cael ei anodi er mwyn adlewyrchu'r diweddariad yn y mis hwnnw. Gan ymateb i gwestiynau, siaradodd y Prif Swyddog am yr agwedd ragweithiol y mae'r tîm Refeniw wedi'i gymryd i ymgysylltu â chwmnïau preifat i gael gafael ar gyllid grant Llywodraeth Cymru (LlC) a darparu cefnogaeth trwy gytundebau ad-dalu lle y bo'n bosibl. O ran cadw Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy fel ysbyty brys, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y trafodaethau yn mynd rhagddynt o ran cefnogaeth ariannol ar gyfer cwmnïau preifat sy'n gweithredu yn yr adeilad.

O ran risgiau ariannol, gofynnodd y Cynghorydd Johnson am yr effaith posibl ar osod Treth y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod yr adroddiad cyllideb ar gyfer cyfarfod y Cabinet a fyddai'n cael ei gynnal yn fuan yn sôn am ystod o bwysau costau oedd yn hysbys a'r datrysiadau cyfyngedig oedd ar gael i'r Cyngor i'w bodloni. Byddai dechrau'r broses o ymgynghori ar y gyllideb ym mis Tachwedd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu adolygu a herio'r pwysau costau hynny ochr yn ochr â'r dull ehangach er mwyn adnabod arbedion effeithlonrwydd. Yn ychwanegol, roedd Cynghorau yng Nghymru yn

gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar effaith ariannol y sefyllfa argyfyngus.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dunbobbin, cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i drafod gyda'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i ddarparu rhagor o wybodaeth am werth a rhesymau am y cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent. Byddai adroddiad am ôl-ddyledion rhent yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn y Cabinet.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Bateman, cadarnhawyd er nad oedd colli incwm meysydd parcio o Chwarter 2 yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cyllid LlC, roedd swyddogion wrthi'n edrych ar hawliad posibl am nifer llai o ymwelwyr. Fe eglurodd y Cynghorydd Roberts bod Llywodraeth Cymru yn ystyried mai penderfyniad lleol oedd penderfynu rhoi'r gorau i godi tâl yn ystod y cyfnod yma.

Fe atgoffodd y Cynghorydd Banks yr Aelodau mai'r sail resymegol y tu ôl i benderfyniad y Cyngor oedd cefnogi canol trefi lleol. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod modd dangos y dystiolaeth yma i LlC. Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd i Aelodau bod y Cyngor yn gwneud popeth posibl i fanteisio ar gyllid sydd ar gael gan LlC i gefnogi'r broses adfer.

Gweithlu

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jones am argaeledd gweithlu yn sgil cyfrifoldebau gofalu, fe amlinellodd yr Uwch Reolwr y trefniadau sydd ar waith i gefnogi gweithwyr sydd methu gweithio o adref. Fe gyfeiriodd hi hefyd at yr effaith ar y gweithlu sy'n deillio o'r risg o ran y gadwyn gyflenwi ar gyfer cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn cael ei fonitro gan Caffael. Dywedodd y Prif Swyddog bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gaffael y lefelau priodol o PPE ar gyfer gofal cymdeithasol a chynghorau yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Dunbobbin ynglŷn â'r risg o ran argaeledd gweithwyr yn y sector addysg, dywedodd yr Uwch Reolwr bod hyn yn isel ac mai disgyblion oedd yn cael eu heffeithio'n bennaf, gydag ysgolion yn mabwysiadu dulliau creadigol i ddelio â'r sefyllfa. Darparodd wybodaeth hefyd am barhau â'r ymgysylltu cadarnhaol gyda chydweithwyr Undeb Llafur yn ystod y cyfnod o argyfwng.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Johnson, siaradodd yr Uwch Reolwr am newidiadau sydd wedi'u gwneud at y broses recriwtio gan ddefnyddio dulliau digidol oedd yn ddull effeithlon. Fe roddodd eglurhad hefyd am recriwtio i swyddi critigol yn cynnwys y broses gymeradwyo.

Llywodraethu

Diolchodd y Cynghorydd Dunbobbin i swyddogion am yr ymateb i'r achos diweddar o fynediad diawdurdod at ddata, ac fe awgrymodd y gellir ei ddefnyddio fel cyfle hyfforddiant ar gyfer gweithwyr. Rhoddodd y Prif Swyddog enghreifftiau o gamau a roddwyd ar waith er mwyn sicrhau na fyddai'n digwydd eto. Gan ymateb i bryderon am gynnydd mewn seibr-drosedd ar draws y rhanbarth, rhoddodd drosolwg am raglen cynnal a chadw ac adnewyddu er mwyn diweddaru

caledwedd a meddalwedd TGCh a byddai'n darparu ymateb ar wahân am y math o feddalwedd wal dân roedd y Cyngor yn ei ddefnyddio.

Gan ddiolch i swyddogion am yr adroddiad, fe achubodd y Cynghorydd Heesom ar y cyfle i fynegi pryderon am swyddogaeth Gynllunio. Gan fod y mater y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor, roedd y Prif Swyddog yn mynd i ofyn i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i drafod yn uniongyrchol gyda Chynghorydd Heesom.

Fe ailadroddodd y Cynghorydd Jones ei gynnig blaenorol a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn y gofrestr risg ddiweddaraf a mesurau risg o fewn y portffolios corfforaethol; ac

(b) ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol, bod y Pwyllgor yn gofyn pan fydd risg yn sefydlog, fe ddylid ei anodi gyda'r saeth briodol ond gall aros yn goch, oren neu wyrdd yn y cyflwr sefydlog hwnnw.

## 14. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 5)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw fel yr oedd ym Mis 5 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried. Roedd hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol petai pethau'n parhau heb eu newid gan ystyried y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyhoeddiadau Cyllid Grant Argyfwng Llywodraeth Cymru (LlC).

Roedd y diffyg gweithredol o £0.921m yn gadarnhaol o'i gymharu â'r £0.062m yn y mis blaenorol. Nid oedd yr amcanestyniad yma'n cynnwys effaith dau risg ariannol sylweddol ar incwm Treth y Cyngor a Chynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, ynghyd â'r dyfarniad cyflog a fyddai'n dod allan o gronfeydd wrth gefn. Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa wedi elwa o £0.316m o arbedion dros dro sydd wedi'u nodi yn rhan o'r adolygiad o wariant dianghenraid, serch hynny gosodwyd hyn yn erbyn cynnydd sylweddol mewn gwariant y tu allan i'r sir o £0.144m yn fwy na'r lefel wrth gefn o £0.300m a neilltuwyd.

Mae swyddogion yn parhau i drafod gyda LlC ar gefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a byddant yn diweddaru Aelodau ynglŷn â hynny, ynghyd â'r cynnydd am risgiau newydd ar brydau ysgol am ddim a chludiant. Er mwyn crynhoi adroddiadau yn y dyfodol, dim ond y rhai oedd wedi newid o'r mis blaenorol fyddai i'w gweld ym manylion yr amrywiaethau.

O ran Cronfeydd wrth Gefn a Balansau, y balans diwedd blwyddyn a ragamcanwyd ar Gronfeydd Arian at Raid oedd £1.418m gan dybio y bydd y gorwariant o £0.921m yn cael ei dalu gan y swm oedd ar gael yn y gronfa wedi'i glustnodi at argyfwng o £3m, a fyddai'n gadael swm o £1.965m. Y balans diwedd blwyddyn a ragamcanwyd ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar hyn o bryd oedd £11.4m.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, roedd gorwariant arfaethedig o £0.364m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo yn £2.373m, a oedd yn uwch na'r canllawiau argymelledig ar wariant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dunbobbin at effaith posibl prosiect Mockingbird a chynigiodd bod y gorwariant ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Richard Jones a ofynnodd hefyd am effaith Covid-19 ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Ar y tabl sy'n dangos sefyllfa ragamcanol yn ôl portffolio, gofynnodd am golofn ychwanegol er mwyn nodi incwm a chostau a gofynnodd am symud cyllid o fewn y golofn 'cyllideb a gymeradwywyd' ar gyfer rhai o'r portffolios (ac eithrio Cyllid Canolog a Chorfforaethol) gan gydnabod bod y cyfanswm yn cael ei gysoni ddiwedd y flwyddyn. O ran y pwynt cyntaf, cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol at y feddalwedd sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r data ac awgrymodd y gallai adroddiadau yn y dyfodol ddarparu naratif ar gyfer portffolios allai helpu i ddarparu cyd-destun. Cytunodd hefyd i edrych ar symud cyllid yng nghyllideb gymeradwyedig portffolios.

Siaradodd y Cynghorydd Banks am fanteision hir dymor posibl ar gyfer prosiect Mockingbird a oedd yng nghamau cyntaf ei ddatblygu a'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Cafodd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig gan y Cynghorwyr Jones a'u heilio gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 Mis 5, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd yna faterion oedd angen eu codi gyda'r Cabinet y tro hwn;

(b) Gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ystyried eitem am Leoliadau y Tu Allan i'r Sir a menter Mockingbird;

(c) Bod swyddogion Cyllid yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys colofn ychwanegol yn Nhabl 1 adroddiadau yn y dyfodol er mwyn gwahanu incwm o gostau, a darparu ymateb ar symud o fewn cyllidebau portffolios a gymeradwywyd; a

(d) Darparu gwybodaeth am effaith Covid-19 ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir.

## 15. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod gweithdy i Aelodau am faterion Digidol yn cael ei drefnu ar ôl derbyn cais yng ngweithdy Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dywedodd hefyd bod trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dod i stop am y tro.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Dunbobbin, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**16. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, rhoddodd swyddogion eglurhad am amseriad y broses o ymgynghori ar y gyllideb, gan ddechrau gyda chyfarfod y pwyllgor ar 2 Tachwedd.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Dunbobbin, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**17. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12pm)

**..............................**
**Y Cadeirydd**